

# Astudiaeth Achos 4

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

**Mae Tom wedi bod yn gweithio fel rheolwr gofal preswyl i blant ers chwe mis. Mae newydd gwblhau ei gyfnod prawf yn llwyddiannus ac mae ei reolwr wedi nodi nifer o anghenion dysgu o'i adolygiad prawf ac wedi gofyn i Tom ystyried a oes ganddo unrhyw anghenion eraill.**

Mae gan Tom GGC Lefel 4 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol a ChGC Lefel 4 mewn Rheoli. Cyn dechrau fel rheolwr, bu'n weithiwr gofal preswyl i blant am dair blynedd, yn weithiwr cymorth uwch am ddwy flynedd ac yn rheolwr cynorthwyol am flwyddyn.

Er bod Tom wedi bod yn goruchwyllo staff ers blynyddoedd, mae wedi gorfod delio â rhai materion perfformiad anodd ers iddo ddod yn rheolwr, gydag un ohonynt yn destun achos disgyblu ar hyn o bryd. Mae Tom yn teimlo fod ganddo anghenion dysgu ychwanegol yn y maes hwn.

Mae Tom yn bryderus am reoli'r broses gan nad yw wedi bod yn rhan o achos disgyblu o'r blaen. Ar ôl trafod hyn gyda'i reolwr, mae Tom yn defnyddio'r pecyn DPP (<http://www.cgymru.org.uk/datblygiad-proffesiynol-parhaus>) a'r Safon Alwedigaethol Genedlaethol (SGC) **SCDLMCE10 Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal** – i nodi ei anghenion dysgu ar gyfer y maes gwaith hwn (Rhan A).

Mae'r SGC hon yn amlinellu'r gofynion sydd eu hangen wrth reoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal. Mae'n cynnwys dechrau prosesau disgyblu a chyfrannu at achosion disgyblu.

Maent yn ail-drafod hyn yng nghyfarfod goruchwylio nesaf Tom i weld i ba raddau maent wedi diwallu ei anghenion dysgu a datblygu ar gyfer y maes gwaith hwn (Rhan B).

## Rhan A – Cynllunio eich dysgu

Yn yr adran hon mae Tom wedi defnyddio'r SGC **SCDLMCE10 Rheoli ymddygiad a pherfformiad gweithwyr mewn gwasanaethau gofal** i roi amlinelliad i'w hunan a'r rheolwr o'r meysydd allweddol sydd angen iddo eu datblygu o ran sgiliau, gwybodaeth a dealltwriaeth gyfredol. Sylwch ein bod wedi cyfeirio at y meini prawf perfformiad a'r datganiadau gwybodaeth a ddefnyddiwyd fel sail i'r ymarfer hwn, gallwch droi at y SGC i gael rhagor o wybodaeth a manylion.

Pa wybodaeth a sgiliau sydd angen i mi eu datblygu?	Beth sydd eisiau/angen i mi ei gyflawni – pa wahaniaeth wnaiff hyn?	Pa ddulliau sydd ar gael?	Pa gymorth ddylwn i ei gael?	Beth yw fy nyddiadau targed?	Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r canlyniadau sydd eu heisiau/angen arnaf?
Dealltwriaeth o brosesau disgyblu'r sefydliad <b>(P13)</b>  Beth fydd fy rôl <b>(P13-P28)</b>	Rwyf angen sicrhau fy mod yn dilyn y gweithdrefnau cywir fel nad wyf yn gwneud unrhyw beth sy'n llesteirio'r gwrandawriad, gan weithredu mewn modd teg a chyfiawn. Rwyf hefyd am leihau'r effaith negyddol a allai hyn ei chael ar y plant a'r bobl ifanc a'r staff yn y tŷ	Darllen y polisi ar ymddygiad a disgyblaeth eto  Cyfarfod gyda staff i fynd drwy'r polisi a'r weithdrefn a gwirio beth yw fy rôl	Cyfarfod gyda staff	O fewn wythnos	Gallu dilyn gweithdrefnau'n hyderus a chynnal gwrandawriad disgyblu llwyddiannus

## Rhan A – Cynllunio eich dysgu (parhad)

Pa wybodaeth a sgiliau sydd angen i mi eu datblygu?	Beth sydd eisiau/angen i mi ei gyflawni – pa wahaniaeth wnaiff hyn?	Pa ddulliau sydd ar gael?	Pa gymorth ddylwn i ei gael?	Beth yw fy nyddiadau targed?	Sut byddaf yn gwybod fy mod wedi cyflawni'r canlyniadau sydd eu heisiau/angen arnaf?
<p>Sut i gasglu a chofnodi gwybodaeth ar gyfer y gwrandawiadau disgyblu <b>(P15-20)</b> a <b>(K98-K99)</b></p> <p>Sut i reoli'r effaith ar staff a phlant eraill yn y cartref <b>(P27-28)</b></p>		<p>Gofyn am fentor o blith un o'r rheolwyr mwy profiadol</p> <p>Mynd ar gwrs rheoli newid i ddatblygu fy nealltwriaeth o dechnegau rheoli newid a chyfeirio at y SGC ar arwain a rheoli newid <b>(SCD LMCA2 Arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal)</b></p>	<p>Mentor</p> <p>Cwrs hyfforddi</p>	<p>O fewn wythnos</p> <p>O fewn pedair wythnos</p>	<p>Byddaf yn gallu defnyddio rhai o'r technegau a ddysgais i gynorthwyo'r plant a'r bobl ifanc a'r staff i ymdopi ag effaith y disgyblu a'r newid a ddaeth yn ei sgîl</p>

## Rhan B – Cofnodi eich dysgu

Yn yr adran hon mae Tom wedi cofnodi sut a phryd y cwblhaodd y dysgu a amlinellwyd yn Rhan A a pha ddysgu pellach sydd ei angen arno er mwyn iddo gyrraedd y lefel ofynnol.

Beth wnes i?	Pryd wnes i hyn?	Beth ddysgais i?	Sut rwyf wedi'i roi ar waith?	Pa wahaniaeth a wnaeth?	A oes angen unrhyw ddysgu pellach arnaf yn y maes hwn?
Darllen polisi a gweithdrefn ymddygiad a disgyblu <b>(K98-K104)</b>	26/2	Pwysigrwydd gwneud cofnodion cywir a ffeithiol <b>(P15,16 &amp;18)</b>	Wedi gwirio ddwywaith bod fy holl gofnodion yn bodloni'r gofynion	Rwy'n teimlo'n fwy hyderus	
Cyfarfod Sally o personél <b>(K100)</b>	27/2	Hawliau pobl sy'n mynd trwy'r broses ddisgyblu <b>(P12 &amp; P14)</b>	Wedi hysbysu xxxxx am ei hawliau a'r broses y byddwn yn ei dilyn		
Cyfarfod Sam fy mentor	1/3	Mae wedi fy helpu i fyfyrio ar y camau sydd angen i fi eu cymryd cyn cyrraedd y cam disgyblu ffurfiol <b>(P1-11)</b>			

## Rhan B – Cofnodi eich dysgu (parhad)

Beth wnes i?	Pryd wnes i hyn?	Beth ddysgais i?	Sut rwyf wedi'i roi ar waith?	Pa wahaniaeth a wnaeth?	A oes angen unrhyw ddysgu pellach arnaf yn y maes hwn?
Mynychu cwrs rheoli newid ac edrych ar yr LMCS NOS ar arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal ( <b>SCD LMCA2 Arwain a rheoli newid mewn gwasanaethau gofal</b> )	25/3	<p>Yr angen am weledigaeth glir a sgiliau arwain sy'n cael eu derbyn a'u cefnogi gan eraill (<b>P1-P10</b>)</p> <p>Pwysigrwydd cael diwylliant agored lle mae pawb yn gallu mynegi sut maent yn teimlo (<b>P11-P13</b>)</p> <p>Technegau gwahanol y gallaf eu defnyddio i gefnogi plant a phobl ifanc a staff drwy hyn (<b>Mae holl ddatganiadau meini prawf perfformiad a gwybodaeth y SGC yn berthnasol</b>)</p>	<p>Wedi ailedrych ar ein 'gweledigaeth' ar gyfer y gwasanaeth yng nghyfarfod y tîm ac mewn cyfarfod tŷ gyda'r bobl ifanc</p> <p>Wedi'i drafod gydag unigolion mewn cyfarfodydd goruchwyllo staff i weld sut maent yn teimlo a sut y gallant fynd i'r afael ag unrhyw anawsterau</p> <p>Wedi pwysleisio pethau sy'n llwyddo, ymarfer da ac ati a sicrhau bod y bobl ifanc a'r staff yn ymwybodol o'r rhain</p>	<p>Eglurder ynghylch beth rydym yn ceisio ei gyflawni fel gwasanaeth</p> <p>Wedi gwneud i mi ddechrau meddwl am fy arddull a sgiliau arwain</p> <p>Y tîm yn llai pryderus</p>	Hoffwn gwblhau'r uned FfCCh ar reoli newid - bydd hyn yn helpu i gadarnhau'r hyn a ddysgais ac yn cyfrannu at fy PRTL (Hyfforddiant a Dysg Ôl-gofrestru)